# CV Actio

Mae CV actio yn wahanol iawn i'r math o CV y byddech yn ei ddefnyddio i wneud cais am swyddi eraill. Yn wir, defnyddir CV actio fel rhan hanfodol o'r broses gastio. Ei prif ddiben yw amlygu eich holl brofiad actio, eich sgiliau a'ch doniau unigryw.

Rhaid i'ch CV fod yn broffesiynol a mynnu sylw; dyma'ch teclun marchnata. Wrth edrych ar eich CV bydd asiantau castio yn llunio barn ynglŷn â'r math o rannau rydych chi'n addas ar eu cyfer e.e. prif ran/yr arwr, y gîc (*geek*). Weithiau, efallai y bydd angen i chi ailddrafftio eich CV er mwyn tynnu sylw at sgiliau penodol i farchnata eich hun mewn ffyrdd gwahanol.

Dylech sicrhau bod eich CV yn glir ac yn gryno, heb fod yn fwy nag un dudalen A4. Bydd asiantau castio yn taflu golwg arno fel man cychwyn, felly bydd angen iddo dynnu eu sylw a darparu'r wybodaeth fwyaf perthnasol y maent ei hangen.

Dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol:

**Manylion personol**
Gall y rhain ffurfio penawdau ar gyfer eich CV a dylent gynnwys:

- Enw (mawr ac mewn print trwm)
- Manylion cyswllt: Cyfeiriad, Rhif ffôn, E-bost
- Rhif Spotlight (os oes gennych un)
- Rhif Equity (os oes gennych un)
- Manylion cyswllt eich Asiant (os oes gennych un)
- Gwefan
- Ffotograff (llun proffesiynol o'ch pen, yn y gornel dde uchaf)

**Eich gwedd**
Dylech gynnwys manylion fel lliw eich gwallt, lliw eich llygaid, eich taldra, eich corffolaeth, a'r oedrannau gallwch chwarae.

**Hyfforddiant Drama**
Dylech gynnwys manylion unrhyw hyfforddiant drama a'r sefydliad perthnasol.

**Profiad o actio**
Dechreuwch gyda'ch gwaith mwyaf diweddar yn gyntaf: Os nad oes gennych lawer o brofiad proffesiynol, dylech gynnwys unrhyw gynyrchiadau prifysgol/coleg neu amatur yr ydych wedi perfformio ynddynt. Wrth fagu mwy o brofiad actio proffesiynol gallwch ddechrau hepgor eich cynyrchiadau amatur. I wahaniaethu rhwng eich gwahanol fathau o brofiad rhannwch nhw i'r categorïau: theatr, ffilm a theledu. Nodwch y rhan, y cynhyrchiad, y cwmni, y cyfarwyddwr a'r flwyddyn.

**Sgiliau ac Acenion**
Rhestrwch unrhyw acenion/tafodieithoedd y gallwch eu perfformio i safon uchel. Nodwch unrhyw sgiliau allweddol sydd gennych megis cyflwyno, canu, dawnsio, ymladd llwyfan a thrwydded yrru.

# Bart Jones

E-bost: Bartjones@performer.ac.uk
Rhif ffôn: 04867945
Cyfeiriad: 2 Lôn Coed Ceirios, Aberystwyth, SY23 3DX
Rhif Spotlight: 248967
Rhif Equity: 123456
Gwefan: www.bartjones.com

Rhowch lun proffesiynol o'ch pen yma

**Gwedd**
Oedran: 21
Oedran Chwarae: 16-30
Taldra: 5'9" (175cm)
Corffolaeth: Main
Lliw llygaid: Glas
Lliw Gwallt: Du

**Hyfforddiant Drama**
BA, Drama a Theatr, Prifysgol Aberystwyth 2017 – 2020

## Profiad actio

| Rôl | Drama | Cyfarwyddwr | Cwmni | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| **THEATR** | | | | |
| King Rat | Dick Whittington | E Jones | Warden Plays | 2020 |
| Heathcliff | Wuthering Heights | Clive Smith | Cast Up | 2019 |
| **TELEDU** | | | | |
| Ecstra | Dr Who | Pat Steve | BBC | 2018 |
| **FFILM** | | | | |
| Peter | Break Out | Jessica Pass | Prifysgol Aberystwyth | 2020 |
| Dave | Showcase | Jane Paul | Prifysgol Aberystwyth | 2018 |

## Sgiliau
Cantor (Bariton)
Piano Gradd 7
Ymladd Llwyfan (heb arfau, cleddyf bach a dagr)

## Acenion
Americanwr (Efrog Newydd)